

# Mwy na geiriau:
## Straeon Bywyd Go

.

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
Ayush Soni, Gradd Meistr Busnes

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
Dwi'n dod o gefndir amlddiwylliannol, gan i mi gael fy magu yng nghanolbarth India. Hindi yw fy iaith frodorol, a dwi'n ei siarad yn rhugl gartref. Fodd bynnag, cefais fy addysg mewn Ysgol Cyfrwng Saesneg, a dyna sut wnes i ddod yn hyddysg yn y Saesneg. Yn ogystal â hyn, astudiais Ffrangeg fel iaith dramor fel rhan o'm gradd. Wrth dyfu i fyny, ro'n i'n ffodus i gael ffrindiau o gefndiroedd ieithyddol amrywiol, gan gynnwys siaradwyr Bengaleg, Marathi a Punjabi.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
Yn ystod fy nghyfnod yn y brifysgol, cefais agoriad llygad mawr am arwyddocâd bod yn amlieithog wrth i mi ddod ar draws unigolion o gefndiroedd ieithyddol amrywiol. Fe wnaeth deall pwysigrwydd cael iaith gyffredin agor drysau i mi i ffyrdd newydd o weld y byd. Caniataodd i mi gymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon gyda phobl o wahanol gefndiroedd, a meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'u diwylliannau a'u traddodiadau. Drwy groesawu mwy nag un iaith i'm bywyd, llwyddais i gyfoethogi fy mhrofiadau ac ehangu fy ngorwelion, gan fy ngalluogi i archwilio harddwch gwahanol ddiwylliannau.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
Mae siarad mwy nag un iaith wedi fy helpu mewn sawl ffordd. Yn gyntaf oll, mae wedi fy helpu i wneud ffrindiau newydd. Roedd

gallu siarad iaith yr un iaith yn fy helpu i gysylltu â'r person arall ar unwaith. Mae darganfod bod rhywun yn siarad yr un iaith â ti'n sbarduno perthynas yn syth, ond mae hefyd yn agor llu o bynciau sy'n berthnasol i'r ddau ohonoch y gallwch fynd ati i'w trafod.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Mae gwybod iaith wahanol yn sicr wedi fy helpu yn fy mywyd proffesiynol: mae'n rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i mi rwydweithio a chwrdd â phobl newydd. Er enghraifft, cofrestrais ar gyfer y rhaglen mentora ITM a thrwy hynny cefais gyfle i gwrdd â'm cyd-fentoriaid a'r staff anhygoel. Trwy ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddi ITM, dysgais sgiliau newydd fel siarad cyhoeddus, ac addysgu ac ati.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Marchnata, Addysgu neu Newyddiaduraeth

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Gallu edrych ar bethau o safbwynt gwahanol a dysgu geirfa newydd drwy'r broses hon.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Dwi'n cael llawer o bethau am ddim! Mae hynny'n cynnwys bwyd, anrhegion a gostyngiadau mewn siopau a bwytai, i gyd am fy mod i'n siarad neu'n ceisio cael sgwrs yn yr un iaith.

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Mae'n cymryd amynedd i ddysgu ieithoedd newydd ac mae angen

cael pobl i ymarfer gyda nhw hefyd.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
    Daw fy hoff ddyfyniad o Sanskrit – "*Atithi Devo Bhava*". Ystyr y dywediad enwog hwn yw "mae gwesteion fel Duw" a dyma ysbryd y traddodiad a'r diwylliant Indiaidd pan fyddwn ni'n croesawu gwesteion. Mae wir yn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a lletygarwch cynnes pobl India.


11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
    Hoffwn i ddysgu Ffrangeg. Fe wnes i ei hastudio fel myfyriwr israddedig ond dwi eisiau ei dysgu eto a'i siarad yn rhugl. Hoffwn i hefyd ddysgu Sbaeneg gan mai hon yw'r iaith sy'n cael ei siarad yn fwyaf eang yn y byd. Byddai'n sicr yn fy helpu i wneud ffrindiau newydd a chael sgwrs dda gyda gwahanol bobl.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Trwy fod yn fentor, dwi wedi dysgu sgiliau amrywiol. Mae'n debyg mai gallu sefyll o flaen dosbarth a rhannu syniadau yw'r profiad gorau i mi ei gael fel rhan o'r rhaglen hon. Dwi wedi dysgu geiriau newydd yn y Gymraeg ac mae hefyd wedi fy helpu i ddod i wybod am a chael dealltwriaeth ddyfnach o ddiwylliant Cymru.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
    Mae fy rhieni'n amlieithog ac yn siarad pedair iaith. Maen nhw bob amser yn fy ysbrydoli i ddysgu ieithoedd newydd.

14. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**

Byddwn i’n argymell yn gryf eu bod yn dysgu ieithoedd newydd. Mae'n gyfle gwych, mae'n hwyl dysgu ieithoedd ac mae mwy na 40 y cant o'r boblogaeth yn siarad mwy nag un iaith. Mae'n rhoi cyfle gwych i chi gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau ac ehangu eich persbectif.



www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**